**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Medi 2019 Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cychwynnodd y cyfarfod am 9.45am oherwydd bod nifer o Aelodau wedi cael eu dal yn y gwaith ffordd ar yr A55.

YN BRESENNOL:

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| B Apsley (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

K Finch (Trysorydd); C P Everett (Clerc); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); S Forrest a G Williams (Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a'r Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); H Howard (Pennaeth Cyllid); C A P Thomas a P Bass (Yr Ysgrifenyddiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

2. DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Dim.

3. RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

4. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 29 GORFFENNAF 2019

4.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2019 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

**4.2 PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

5. MATERION YN CODI

5.1 Cadarnhaodd y PSC MacArthur bod y Datganiad o Gyfrifon archwiliedig wedi cael eu cymeradwyo gan y Panel Gweithredol ar 29 Gorffennaf 2019 ac y byddant yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod o'r Awdurdod Llawn ar 16 Medi 2019.

6. GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2019/20

6.1 Rhoddodd Sandra Forrest gyflwyniad i'r Aelodau ar yr adroddiad interim a oedd yn crynhoi Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys yr Awdurdod ac yn nodi'r Gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2019/20. Bydd adroddiad pellach ar gael yn Ionawr 2020.

6.2 Mae'r cynlluniau Gwariant Cyfalaf (Dangosydd 1) wedi eu diwygio i £2.05m, ac mae'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) hefyd wedi gostwng i £33.2m. 7.83% ydi'r gymhareb ar gyfer y dangosydd newydd (i lawr o 8.97%).

6.3 Ar hyn o bryd mae gennym ddyled o £16.72m i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthyciadau marchnad gwerth £17m, sef cyfanswm o £33.72m. Y terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyciadau tymor byr ydi 55%, ac mae'r ymgynghorwyr Trysorlys (Arlingclose) yn fodlon gyda hyn.

6.4 Mae Arlingclose wedi cynghori bod y defnydd o fenthyciadau tymor byr yn gost effeithiol i'r Awdurdod. Ni wyddys eto beth ddaw yn sgil Brexit, fodd bynnag, rhagwelir gostyngiad mewn cyfraddau llog. 1.61% ydi cyfradd llog y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB).

6.5 Mae buddsoddiadau bellach yn gyfanswm o £3.88m oherwydd y grant atodol ar gyfer y gronfa bensiwn. Maent wedi eu rhannu mewn dau gyfrif galw, y naill â graddfa o 0.65% a'r llall â graddfa o 0.5%.

6.6 Bu i'r Cynghorydd Lloyd-Williams gymeradwyo Sandra Forrest am ddarparu adroddiad clir a chryno.

**6.7 PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub eu bod yn cymeradwyo'r Gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2019/20.**

7. ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU 2018/19

7.1 Cyflwynodd y PSC Morris Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru sydd yn crynhoi ar sail y gwaith a gafodd ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru fod yr Awdurdod yn debygol o gydymffurfio â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod y flwyddyn hon.

7.2 Gwnaethpwyd chwe chynnig ynglŷn â chydymffurfio â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond ni roddwyd unrhyw argymhellion ffurfion.

7.3 Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r argymhellion a wnaed mewn adroddiad cenedlaethol ar Wasanaethau Llywodraeth Leol i Gymunedau Gwledig gan gynnwys un a oedd wedi ei hanelu at bartneriaid y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**7.4 PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Gwella Blynyddol a'i argymhellion.**

8. MATERION BRYS

8.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.